UK Covid-19 Inquiry

Modiwl 2C

Awst 2022

AMLINELLIAD AMODOL O'R CWMPAS

(yn amodol ar gyflwyniadau gan Cyfranogwyr Craidd a Chwnsler i'r Ymchwiliad)

Bydd y modiwl hwn yn edrych ar, ac yn gwneud argymhellion am, y penderfyniadau gan y llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas 'r pandemig Covid-19 rhwng dechrau Ionawr 2020 hyd y cafodd cyfyngiadau Covid-19 eu codi yng Ngogledd Iwerddon ym Mawrth 2022. Bydd yn archwilio'r broses o wneud penderfyniadau gan grwpiau ac unigolion allweddol o fewn y llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon gan gynnwys y Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidogion eraill, yn enwedig rhwng dechrau Ionawr a diwedd mis Mawrth 2020 pan osodwyd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Ymgymerir ag ystyriaeth fanylach o nifer o brif feysydd ac effaith y pandemig ar y meysydd hynny yng Ngogledd Iwerddon yn ddiweddarach yn yr Ymchwiliad.

Bydd Modiwl 2C yn archwilio:

1. Y strwythurau a'r cyrff yn ymwneud â'r ymateb i'r pandemig yng Ngogledd Iwerddon a'u perthnasoedd a'u cyfathrebiadau â Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig eraill ac awdurdodau lleol o fewn Gogledd Iwerddon.

2. Dealltwriaeth gychwynnol y llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon o, ac ymateb i, natur a lledaeniad Covid-19 yng Ngogledd Iwerddon yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2020 yng ngoleuni gwybodaeth a chyngor a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU a chyrff rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol eraill, cyngor gan gynghorwyr gwyddonol, meddygol ac eraill ac ymateb gwledydd eraill.

3. Gwneud penderfyniadau gan y llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon yn ymwneud â gosod neu beidio gosod ymyriadau anfferyllol (NPIau) gan gynnwys cyfyngiadau symud, cyfyngiadau lleol, gweithio o gartref, lleihau cysylltiad unigolyn i unigolyn, cadw pellter cymdeithasol, y defnydd o orchuddion wyneb a rheoli ffiniau yng Ngogledd Iwerddon; y raddfa a'r rhesymeg y tu ôl i wahaniaethau mewn ymagwedd rhwng y llywodraeth

yng Ngogledd Iwerddon a llywodraethau eraill yn y DU; amseroldeb a rhesymoldeb y fath NPIau, gan gynnwys yr effeithiau tebygol pe byddai penderfyniadau i ymyrryd wedi cael eu cymryd yn gynharach neu'n wahanol; datblygiad yr ymagwedd at NPIau yng ngoleuni dealltwriaeth y llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon o'u heffaith ar drosglwyddiad, heintiad a marwolaeth; yr adnabyddiaeth o grwpiau mewn perygl a rhai eraill agored i niwed yng Ngogledd Iwerddon a'r asesiad o effaith debygol y NPIau arfaethedig ar y fath grwpiau yng ngoleuni anghydraddoldebau sy'n bodoli; effaith absenoldeb Gweinidogion a'r Weithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon o ddechrau 2017 i 11 Ionawr 2020; y graddau y cafodd penderfyniadau eu ffurfio gan ymateb llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon; a'r effaith, os o gwbl, o gyllido ymateb Gogledd Iwerddon i'r pandemig ar y fath benderfyniadau, gan gynnwys cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU.

4. Mynediad at a defnydd mewn penderfyniadau o arbenigedd meddygol a gwyddonol, casglu a modelu data yn ymwneud â lledaeniad y feirws yng Ngogledd Iwerddon; mesur a deall cyfraddau trosglwyddiad, heintiad, mwtaniad, ailheintiad a marwolaeth yng Ngogledd Iwerddon; a'r berthynas rhwng a gweithrediad o systemau perthnasol ar gyfer casglu, modelu a dosbarthu data.

5. Cyfathrebiadau iechyd cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â'r camau a gymerir i reoli lledaeniad y feirws; tryloywder y negeseuon; y defnydd o reoli ymddygiad a chynnal hyder cyhoeddus yn y llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys effaith unrhyw doriadau honedig o reolau a safonau gan Weinidogion, swyddogion a chynghorwyr.

6. Y ddeddfwriaeth a rheoliadau iechyd cyhoeddus a choronafeirws a gafodd eu cynnig a'u deddfu: eu cymesuroldeb a'u gorfodaeth yng Ngogledd Iwerddon.

© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This publication is available at https://covid19.public-inquiry.uk/

Any enquiries regarding this publication should be sent to us at contact@covid19.public-inquiry.uk.